pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:11 Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mawrth 2012 Rhif 377



Rhai o'r buddugwyr yn eisteddfod Ysgol Tal-y-bont. Y canlyniadau i gyd ar dudalen 8.

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4/5 a 8/9 Ysgolion
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Chwaraeon

## Dathlu a Phrotestio




Nic a Karen Hughes a'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn y brotest yng Nghaerdydd.

Mae'r cyfnod o gwmpas Dydd Gŵyl Ddewi yn un o ddathlu ar hyd a lled Cymru. Adroddir yn y rhifyn hwn am y digwyddiadau lleol a ddaeth â'r gymuned ynghyd i ddathlu'n nawddsant. Cafwyd noson 'Hwyl Ddewi' fythgofiadwy yn Neuadd Goffa Tal-y-bont yng nghwmni parti Cut Lloi a cheir adroddiad am y noson hwyliog hon yn y rhifyn hwn o *Bapur Pawb*. Ceir hefyd adroddiadau am lwyddiannau ein plant yn eisteddfodau ysgolion Penweddig, Llangynfelyn a Thal-y-bont. Braf yw gweld yr hen draddodiadau'n parhau.

Ac eto, efallai'r digwyddiad pwysicaf o'r cyfnod oedd y brotest yn y Cynulliad ym mae Caerdydd ar ddiwrnod olaf Chwefror. Daeth tua saith gant o bobl ynghyd, llawer ohonynt o ardal *Papur Pawb*, i brotestio yn erbyn cynlluniau Ymddiriedolaeth Hywel Dda i gwtogi ar y gwasanaethau a gynigir gan Ysbyty Bronglais. Er bod yr Ymddiriedolaeth a'r Gweinidog Iechyd, Lesley Griffiths, yn haeru nad oes bwriad i gau neu israddio Bronglais, mae tystiolaeth y meddygon yno yn gwrthddweud hyn. Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf o *Bapur Pawb*, nid oes amheuaeth fod cynlluniau i gwtogi ar nifer o wasanaethau allweddol a'u hadleoli i Gaerfyrddin yn gyfystyr ag israddio Bronglais.

Nid yw Papur Pawb yn ymddiheuro am dynnu sylw ein darllenwyr at yr achos hwn unwaith eto. Mae parhad a datblygiad y gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais yn hanfodol i ni yma yng ngogledd Ceredigion ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i godi'n llais yn erbyn y cwtogi. Mae'r neges a gariai Nic Hughes o Dal-y-bont yn y brotest yng Nghaerdydd yn un cwbl addas:

"BRONGLAIS – YN CYRRAEDD Y CLEIFION NA ALLAI YSBYTAI ERAILL GYRRAEDD"

## Ŵy-ddoch chi pam...



fod iâr ar ysgwydd Medi James? Mae'r ateb ar dudalen 4.

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | **(01970) 832560** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | **832592** |
| | Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | **832438** |
| **Maes-y-deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont | **832483** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont | **832498** |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | **832230** |
| **Tre’r-ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre’r-ddôl | **832429** |
| | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre’r-ddôl | **(01654) 781260** |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont | **832433** |
| **Is-gadeirydd:** | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Ysgrifennydd:** | Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont | **832433** |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | **832448** |
| **Hysbysebion:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Plygu’r Papur:** | Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones | |
| **Dosbarthwyr:** | Enid Gruffudd; Susan Lewis: Gwenllïan Parry-Jones | |

**Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth**
**Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg**


# Llythyron

Annwyl Olygydd

**Cyfle Gwych i Hyrwyddo eich Busnes**

Mae’r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2013 Y Lolfa. Mae’r Dyddiaduron yn cynnwys Cyfeiriadur defnyddiol o fusnesau a sefydliadau Cymreig. Os ydych am i’r Lolfa gynnwys gwybodaeth am gwmni neu gymdeithas newydd yn ein Cyfeiriadur neu os ydych am ddiweddaru neu ddileu gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi neu fynd i’r adran Cyfeiriadur Cymreig ar wefan Y Lolfa: **www.ylolfa.com/cyfeiriadur**

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced Y Lolfa. Os am dderbyn taflen delerau mae croeso i chi e-bostio sonia@ylolfa.com neu fy ffonio ar 01970 832304.

Yn gywir
Sonia Hughes
sonia@ylolfa.com
Y Lolfa
Tal-y-bont
Ceredigion
SY24 5HE

## Eglwys St. Pedr, Elerch

Cafwyd cyfle i ddiolch i’n ficer, Y Parchg John Livingstone, am ddegawd o wasanaeth diflino mewn swper ffarwel a gynhaliwyd ym Mhenrhyn-coch ar nos Sadwrn, 18 Chwefror. Daeth tyrfa fawr ynghyd o eglwysi’r ofalaeth, a chyflwynwyd tysteb iddo ar ran eglwysi Penrhyn-coch, Capel Bangor ag Elerch, gan Mr Emyr Davies a Mr Dewi Evans, wardeniaid St. Pedr. Dymunwn yn dda iddo ac i Mrs Livingstone wrth iddynt ymddeol i’w cartref yn Llys-y-frân, gogledd Penfro.

Mae swyddogion Eglwys Elerch yn ddyledus iawn unwaith yn rhagor am gymorth ariannol pellach oddi wrth Gronfa Eleri yn dilyn cais llwyddiannus. Gwerthfawrogir y cymorth hwn yn fawr iawn, ac mae wedi ein galluogi i wneud cryn waith ar yr adeilad.

## Merched y Wawr Tal-y-Bont a’r Cylch

Cawsom gwmni rhai ffrindiau yn y cyfarfod ar nos Lun, 20 Chwefror, pan fwynhawyd drama am fywyd yng nghwmni’r ddwy actores Llio Silyn a Rhian Morgan a hwythau wedi eu gwisgo mewn gwisg Gymreig. Buont yn sôn am le’r ferch yn y gymdeithas ac yn bwrw golwg yn ôl ar fywyd drwy gyfrwng barddoniaeth, llenyddiaeth, straeon a chymeriadau lliwgar. Talwyd y diolchiadau gan Ellen ap Gwynn, a pharatowyd y te gan Glenys Edwards a Myfanwy James.

# Dyddiadur

**Mawrth**

**11** Bethel 10 *Gweinidog*
Nasareth
Rehoboth 5 *Bugail* (C)
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaid*

**13** Chwioirydd Rehoboth *Carys a’i chamera*

**14** Neuadd Goffa *Pwyllgor y Neuadd*

**15** Sefydliad y Merched *Gwneud Hetiau (er budd Ffagl Gobaith)*

**18** Bethel 5 *Raymond Davies (C)*
Nasareth
Rehoboth 5 *Parch Judith Morris*
Eglwys Dewi Sant 11 *Boreuol Weddi*

**23** Clwb Nos Wener 8 (yn brydlon) *Noson yng nghwmni Manon Rhys (Llew Gwyn)*

**25** Bethel 2 *Gweinidog*
Nasareth 5 *Bugail*
Rehoboth 10 *Parch Ifan Mason Davies*
Eglwys Dewi Sant 11 *Gwasanaeth Teuluol*

**26** Neuadd Goffa 7.30 *Pwyllgor Cymuned Ceulanamaesmawr*

**Ebrill**

**1** Bethel 10 *Uno yn Noddfa*
Nasareth 10 *Bugail (C)*
Rehoboth 5 *Bugail (C)*
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaid*

**6** Bethel 10 *Gweinidog (C) Undebol*

**8** Bethel 10 *Parch Peter Thomas (C)* 2 *Cwrdd Teuluol*
Nasareth *Cyfarfod Pregethu*
Rehoboth *Oedfa’r Ofalaeth*
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaid*

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu’ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i’r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn a Fal, gyda Ceri’n dylunio. Golygyddion mis Ebrill fydd Robat ac Enid Gruffudd (01970 832718; enidgruffudd@talktalk.net).
Y dyddiad olaf i dderbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Ebrill, a bydd y papur ar werth ar 13 Ebrill.

## Cronfa Goffa’r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau’r henoed am gymhorthdal o’r gronfa uchod. Dylai’r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2012.

Yr ysgrifennydd yw: Mary Jones
Lleifior, 27 Glan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3GG
**01970 624408**

**Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb**

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

**Hefyd:**
- **Papur Pawb Sain** – i’r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau’r papur**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

**papurpawb.com**

# Pobl a Phethe

**Cofion Cynnes**
Anfonwn ein cofion cynhesaf i Peggy Evans, Cartref Tregerddan (Rhiwlan, Tal-y-bont gynt) sydd ar hyn yn Ysbyty Bronglais wedi iddi dorri ei chlun.

Yn ysbyty Bronglais hefyd mae Mrs Margaret Jones, Penlonlas, Tal-y-bont yn dilyn triniaeth. Brysiwch i wella eich dwy. Braf deall bod Idris Jones, Llys Ynyr, Tal-y-bont wedi cael dod adre o'r ysbyty erbyn hyn.

**Croeso**
Pob dymuniad da i Debbie a Graham sydd wedi dod i fyw i Madryn, 5 Maesyfelin, Tal-y-bont. Mae Debbie yn ddarlithydd yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth, ac mae Graham yn darlithio ym Mhrifysgol Bangor.

**Penblwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn i chi Mrs Dwynwen Jones, Cartref Tregerddan (gynt o Brooklyn, Tal-y-bont) sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 95 oed. Gobeithio i chi gael diwrnod da iawn. Cyfarchion penblwydd arbennig i chithau hefyd, Rosie Evans, Maes y Deri, Tal-y-bont, ond sydd bellach yng nghartref Tregerddan, ar ddathlu eich penblwydd yn 99 oed.

Deallwn fod Eirian Roberts, 90 Maes y Deri, Tal-y-bont a Richard Burnham Salon Leri, Tal-y-bont hefyd yn dathlu penblwyddi arbennig! Ond wnawn ni ddim datgelu beth yw eu hoedran chwaith!

**Cartref Newydd**
Croeso i Jackie, Amy, Leo a Simon sydd newydd symud i fyw i 96 Maes y Deri, Tal-y-bont.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Nicola a Siôn Jones, 14 Maes y Deri, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab, Osian Llyr ar 8 Chwefror.

Pob dymuniad da hefyd i Andrew a Lesley Lewis, Glasfryn, Ffwrnais ar enedigaeth mab iddynt - bachgyn bach sy'n siwr o gael ei sbwilio gan ei bump chwaer.

**Croeso Adre**
Croeso adre i ti Dewi Jenkins, Ty`n Graig, Tal-y-bont wedi cyfnod yn gweithio yn Seland Newydd trwy gynllun y Mudiad Ffermwyr Ifanc.. Gobeithio i ti fwynhau dy brofiadau yno. Tybed a oes siawns i ni gael dipyn o dy hanes?



## Cyflwyno Siec

Cyflwynodd Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, siec o £115 a gasglwyd wrth ganu carolau o amgylch y pentre, i Jo Kennaugh, Swyddog Datblgu'r elusen DASH.

Mae'r elusen DASH yn cefnogi a chynorthwyo teuluoedd gyda phlant ag anabledd, yng Ngheredigion.

Mae'r elusen hefyd yn cynnig gweithgareddau amrywiol trwy'r flwyddyn a chynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol. Maent yn darparu clybiau ieuenctid pwrpasol i rai rhwng 11 – 25 oed gan drefnu cludiant hefyd ar eu cyfer.

---

**Pantomeim**
Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont am y llwyddiant gyda'r sioe bantomeim. Enillwyd y gystadleuaeth ar gyfer Ceredigion ac yn awr bydd y criw yn perfformio yn y rownd derfynol yn Llandudno. Pob lwc iddynt yno. Bydd mwy o hanes am hyn a lluniau yn y rhifyn nesaf o *Bapur Pawb*.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont ar farwolaeth ei modryb.

**Penblwydd Hapus**
Dymuniadau gorau i Mr Gareth Evans, Swn-y-ffrwd, Bont-goch ar ddathlu ei benblwydd yn 85 oed ar 23 Chwefror. Darlledwyd cyfarchion arbennig iddo ar raglen radio Dai Jones Llanilar, Ar eich Cais, gyda Hogiau Llandegai yn canu 'Defaid William Morgan'.

**Pasio Prawf Gyrru**
Da iawn ti Hefin Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont ar basio dy brawf gyrru yn ddiweddar.

**18 Oed**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llion Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed.

**Diolch**
Dymunai Mrs Jeeves, Llys-y-coed, Tre Taliesin, ddiolch i bawb am eu cymwynasgarwch tra oedd hi'n cael triniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Llio Rhys a Tom Cosson, Brynarian, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu merch Martha ar 17 Chwefror, chwaer fach i Hopcyn.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Sue Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch ar golli ei thad yn sydyn iawn yn Ynys Wyth (Isle of Wight) yn ddiweddar. Estynnwn ein cofion at ei chymar Mike, ac at George a Florrie ar golli eu Tad-cu.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs Tegwen Evans, Pen-y-graig, Bont-goch ar golli modryb, Mrs Blodwen Griffiths, Ysgubor Fach, Cwmystwyth.

**Brysia i wella**
Rydym yn falch o glywed bod Claire Fowler, Bron y Gân, Tal-y-bont yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth ar ei phenglin yn Ysbyty Gobowen. Gobeithio y byddi di'n gallu garddio unwaith eto, cyn bo hir.

**Cymdeithas Y Chwiorydd, Rehoboth**
Y wraig wadd yn y cyfarfod ar brynhawn Mercher, 8 Chwefror, oedd Nia Wyn Jones, sy'n dysgu yn yr adran gwallt a harddwch yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau. Bu'n sôn wrthym am ei gwaith yn dysgu myfyrwyr, a hefyd dangosodd beth ellir ei wneud gyda'r gwallt, er enghraifft, drwy ychwanegu *extensions* o bob lliw a llun gellir creu edrychiad newydd mewn chwinciad. Diolchwyd iddi gan Eirlys Jones, ac yna mwynhawyd te wedi ei baratoi gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 4



# Noson Hwyl Ddewi

"Bendigedig!" "Gwych!" "Un o'r nosweithiau gorau yn y neuadd!" oedd rhai o'r sylwadau a glywyd ar y ffordd allan o'r Neuadd Goffa, Nos Sadwrn, 25 Chwefror. Trefnwyd `Noson Hwyl Ddewi'gan bwyllgor y neuadd a buan iawn y gwerthwyd yr holl docynnau. (Roedd sôn i rai gael eu rhoi ar werth am grocbris ar E Bay!) A bu raid i nifer fodloni ar ddod i wrando ar yr adloniant yn unig.



Paratowyd cawl cig eidion blasus iawn (risêt arbennig gan Mair Nutting) gan nifer o ferched y pentre gyda chwpaned a chacennau i ddilyn. Braf oedd gweld nifer o bobl ifanc yn gweini wrth y byrddau. Addurnwyd y byrddau a'r neuadd yn hyfryd gyda chennin pedr .

Felly, wedi cael llond bol o fwyd a sgwrs a chlonc, roedd pawb yn aros yn eiddgar i gael croesawu Siân James a'i pharti Cut Lloi.

Yn ei ffordd gynnes a naturiol cyflwynodd Siân yr eitemau gan y parti o ddynion a oedd yn gantorion penigamp. Roedd eu lleisiau'n asio'n berffaith a chafwyd canu unsain, deulais a thri llais cryf a chadarn. Roedd ganddynt ystod eang ac amrywiol o ganeuon, o'r hen i'r newydd ac o alawon gwerin i gerdd dant gan ganu'n ddi-gyfeiliant neu gyda'r delyn a'r piano. Cafwyd unawdau, deuawdau a thriawd. Braf hefyd oedd clywed llais Siân wrth iddi hithau gyfrannu i'r rhaglen swmpus.

Ond llais bach arall a swynodd nifer o'r gynulleidfa ifanca wrth i'r iâr glwcian ei hymateb i gais Edryd am ŵy! Gobeithio bod Medi wedi dod dros y profiad o fod mor agos i'r creadur pluog!

Talwyd y diolchiadau i Sian a Pharti Cut Lloi ar ddiwedd y noson gan Bleddyn Huws, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd cyn i bawb godi i ganu ein hanthem genedlaethol i ddod â'r noson ardderchog i ben.

# Menter Newydd



Agorwyd siop newydd ar gyfer pysgotwyr yn Aberystwyth yn ddiweddar sef *The GB Fishing Tackle Centre*. Nid cyfeiriad at *Great Britain* a geir yn yr enw ond at lythrennau enw'r perchennog sef George Barron, Tal-y-bont. Mae George a'i bartner busnes Basil Coates wedi agor y siop, sy'n gwerthu pob math o offer pysgota, yn Stryd y Gorfforaeth. Agorwyd y siop yn swyddogol gan y pysgotwr enwog, Moc Morgan.

# Ysgol Llangynfelyn



Willow Celik yn cael ei chadeirio yn Eisteddfod yr Ysgol



Diwrnod Crempog



Dydd Gŵyl Dewi

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 5

# Ysgol Llangynfelyn

## Gala Nofio Terfynol Ysgolion Gynradd Aberystwyth

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r canlynol am gymryd rhan yn y gala nofio yn erbyn plant o ysgolion eraill ardal Aberystwyth.

Rhydd Merched Blwyddyn 3 – Gracie Davies - 2il
Rhydd Bechgyn Blwyddyn 3 – Ben Phillips - 2il
Cefn Merched Blwyddyn 4 – Willow Celik - 2il
Cyfnewid Rhydd Merched Blwyddyn 3+4 – Gracie Davies, Willow Celik, Milly Hughes a Poppy Kerridge - 4ydd

## Trip ar y Trên

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen, Mrs Nelmes, Miss Foulkes a Mrs Linda Hicks am drip ar y trên o Fachynlleth i Abermaw. Cafwyd diwrnod arbennig yn teithio ar y trên, tynnu lluniau o beth welodd y plant allan o ffenestr y trên a phicnic ar y traeth yn Abermaw. Gweithiodd y plant yn galed iawn yn yr wythnos ddilynol yn tynnu lluniau, ysgrifennu am eu taith a chreu mapiau o'r daith.

## Diwrnod Crempog

Ar Ddydd Mawrth Ynyd, cafodd y plant i gyd gyfle i wneud a choginio crempogau. Cafwyd crempogau arbennig gyda ffrwythau ffres i bwdin hefyd.

## Kerbcraft

Yn dilyn y gwaith a wnaeth Blwyddyn 2 yn nhymor yr haf, cyflwynwyd bagiau yn llawn o adnoddau Kerbcraft iddynt. Dysgodd y plant sut i groesi'r ffordd yn saff a sut i gerdded yn ofalus ar y palmant.

## Diwrnod y Llyfr

Ar Fawrth y 1af bu'n Ddiwrnod y Llyfr yn yr ysgol. Daeth pob math o gymeriadau lliwgar a diddorol i'r ysgol gan fod y plant a'r staff wedi gwisgo fyny fel cymeriad allan o'u hoff lyfr. Gwnaethpwyd gweithgareddau amrywiol a diddorol yn y dosbarthiadau yn seiliedig ar lyfrau.

## Dydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod Ysgol

Ar Ddydd Mercher Chwefror 29ain cynhaliwyd Eisteddfod a dathliad Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol. Braf iawn oedd gweld cymaint o rieni, perthnasau, cymdogion a ffrindiau yn neuadd yr ysgol yn cefnogi'r plant. Cafwyd fore o gystadlu brwd a hyfryd oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig yn cefnogi'r ddau dŷ – Cletwr a Mochno. Capteiniaid Mochno oedd Zeb Rowell a Ffion Hicks a chapteiniaid Cletwr oedd Milly Hughes, Mabli Rose a Willow Celik. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Beryl Jones am feirniadu ac i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am addurno tu fewn a thu allan yr ysgol. Diolchwn hefyd i Mrs Linda Hicks a Mrs Jill South am baratoi'r lluniaeth.

## Canlyniadau:

Tŷ buddugol – Mochno
Pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 – Ffion Hicks
Pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Katy Indeka
Bardd y Gadair – Willow Celik
1af 2il 3ydd Llefaru Bl 3 Grace Davies Ben Phillips Poppy Kerridge Celf Bl 4 a 5 Ffion Hicks Milly Hughes Mabli Rose
Canu Bl 3 Poppy Kerridge, Ben Phillips, Ruby Indeka
Celf Cyfrifiadur Bl 4 a 5, Zeb Rowell, Milly Hughes a Willow Celik, Ffion Hicks
Celf Bl 3, Ruby Indeka, Levi Way, Jasmin Foster-Leslie
Llefaru Dosbarth Derbyn a Bl1, Finn Langley, Katy Indeka, Ellie Ellis-Evans a Poppy Roberts
Celf Bl 2, Elijah Girardi, Tilly Heathfield, Jasmine Berry
Canu Dosbarth Derbyn a Bl 1, Finn Langley, Katy Indeka, Ellie Ellis-Evans a Poppy Roberts
Celf Dosbarth Derbyn a Bl1, Katy Indeka, Poppy Roberts, Finn Langley
Llawysgrifen Dosbarth Derbyn a Bl1, Katy Indeka, Poppy Roberts, Finn Langley
Llefaru Bl 2, Seamus Byrne, Tilly Heathfield, Elijah Girardi
Llawysgrifen Bl 3, Gracie Davies, Jasmin Foster-Leslie, Ben Phillips
Canu Bl 2, Tilly Heathfield, Jasmine Berry, Asher Wood a Steffan Ellis-Evans
Llawysgrifen Bl 4 a 5, Ffion Hicks, Milly Hughes a Mabli Rose, Willow Celik
Llawysgrifen Bl 2, Tilly Heathfield, Seamus Byrne a Jasmine Berry, Steffan Ellis-Evans
Canu Bl 4 a 5, Willow Celik, Ffion Hicks, Zeb Rowell
Celf Cyfrifiadur Dosbarth Derbyn a Bl1, Poppy Roberts, Katy Indeka, Ellie Ellis-Evans
Llefaru Bl 4 a 5, Ffion Hicks, Milly Hughes, Zeb Rowell a Mabli Rose
Celf Cyfrifiadur Bl 2, Jasmine Berry, Seamus Byrne, Elijah Girardi a Steffan Ellis-Evans
Llenyddiaeth Gymraeg Bl 4 a 5, Milly Hughes, Zeb Rowell, Mabli Hughes
Offerynnol a Piano, Ffion Hicks a Zeb Rowell
Llenyddiaeth Gymraeg Bl 3, Poppy Kerridge, Ben Phillips, Ruby Indeka
Recorders, Willow Celik, Ben Phillips
Y Gadair, Willow Celik, Milly Hughes, Zeb Rowell
Côr, Mochno, Cletwr
Celf Cyfrifiadur Bl 3, Gracie Davies, Ben Phillips


Diwrnod y Llyfr

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553


Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk**
**Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 6

# Offeiriaid y Figyn

Fel yr addewais yn rhifyn Ionawr rwyf am fanylu ar hanes y Parchedig James Jones, Llonio, Goetre, a ddaeth yno gyda'i briod pan ymddeolodd fel Rheithor Eglwys Sant Llonio, Llandinam, a sôn hefyd am ei gefndryd fu'n offeiriaid. Roedd James a fedyddiwyd yn Eglwys Llangynfelyn ar 23 Tachwedd 1860, yn un o wyth o blant John a Jane Jones, fferm Penpompren, a James brawd John oedd yn ffermio Tŷ Mawr Mochno gerllaw oed tad y cefnderwyr. Roedd y tadau yn feibion i James Jones, Goetre, 'Hatter', un o lu mawr o ddynion y fro a wnaeth Tre'r-ddôl yn enwog drwy ogledd Cymru oherwydd y diwydiant hetiau.
Ond yn bwysicach i mi yr oedd James yn un o saith ymddiriedolwr Hen Gapel Wesle Tre'r-ddôl, ym 1844, ac yn un o bedwar a brynodd brydles tir y capel cyntaf ym 1839, fel y gallent ei wneud yn fwy addas drwy godi oriel ynddo am fod y gynulleidfa'n cynyddu. O gofio fod rhai o blant James a Mary ei wraig wedi'u bedyddio yn yr Hen Gapel mae'n deg gofyn pam y cefnodd y teulu ar y Wesleaid ac ymaeoldi yn Eglwys Llangynfelyn? Ceir yr ateb gan y Parchedig John Henry Griffiths, yn 'Braslun o Hanes Wesleaeth yn Nhre'r-ddôl', a draddodwyd ar 28 Medi, 1954, yn Soar yng nghyfarfod dathlu canrif a hanner yr Achos, ac a gyhoeddwyd yn nghyfrol 10,1955, o *Bathafarn*, Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.


"Sorrodd y teulu ychydig tuag at yr enwad am i Evan Jones (mab James) fel ymgeisydd am ein gweinidogaeth gael ei wrthod am nad oedd angen pregethwyr y flwyddyn honno, mae'n debyg. Gwrthodwyd Humphrey Jones, y Diwygiwr, a Richard Evans, y crydd yr un pryd ...Pellhaodd James (y mab a brawd Evan) Tŷ Mawer Mochno, ac ym 1897 y mae'n gwrthod gweithredu bellach fel ymddiriedolwr". Meddyliwch am y gwahaniaeth rhwng y cyfnod hwnnw gyda gormod eisiau mynd i'r weinidogaeth a'n cyfnod ni gydag ychydig iawn o offeiriaid a gweinidogion ar gael. Mae'n dwyn i gof sylw 'nghyfaill T J Davies – ' Roedd Sir Aberteifi yn enwog gynt am fagu offeiriaid, gweinidogion – a moch!, ond daeth hynny i ben'.

Ond ni fennodd y cefnu ar deyrngarwch David brawd Evan a sefydlodd Ysgol Sul yn y Goetre lle'r oedd pedwar athro yn gofalu am 42 o ysgolorion ym 1851. Gwasanaehodd fel blaenor a bu farw ym 1875. Wedi sôn fod Wesleaid Tre'r-ddôl wedi codi o leiaf ddeg o weinidogion (cefais adnabod J E Thomas, mab Tŷ'n llwyn, a D.O Williams, mab cigydd Tre'r-ddôl) y mae John Henry Griffiths yn dweud, "...aeth pump o blant yr eglwys yn offeiriaid yn yr Eglwys Wladol – y Parchn. Evan Jones, Llundain; James Jones, Llandinam; D Jones Arter; David James, Dolegwyn a John Hopkin Evans, Llanwddyn. Roeddwn yn nabod John Hopkin a'i deulu ac yn fy nghwrdd diolchgarwch cyntaf yn Eglwys Deiniol Llanuwchllyn ym 1967, ef oedd y pregethwr ac Euros Bowen y rheithor yn fy nghwahodd i ddarllen y llith.

Wedi troi yn eglwyswr daeth Evan Jones yn adnabyddus fel rheithor Eglwys Gymraeg Sant Bened, Llundain, ac oddiyno y daethpwyd ag ef yn ôl i'w gladdu ym Mynwent Llangynfelyn ar 17 Gorffennaf 1902 yn 71 oed. Carwn wybod mwy amdano. Mewn nodyn yn y *Welsh Gazette* , 16 Mawrth, 1905, cyfeirir at angladd James Jones (brawd Evan Llundain), Tŷ Mawer Mochno, yn Eglwys Llangynfelyn, gyda'r Parchn. Evan Davies, Curad mewn gofal, O J Davies, Prestatyn, a David Lewis, Pencarreg – ficer Llangynfelyn yn y 1880au, brodor o Flaen-porth ac un o hynafiaid Dic Jones, yn gwasanaethu. . Dywedir fod James a Mary ei wraig yn rieni i dair merch ac wyth mab a bod pump ohonynt yn offeiriaid – William, Rheithor Llanllyfni, Arfon; James Secondus, Rheithor Cathedine, Brycheiniog; Owen, Curad Caerfyrddin; Richard, Curad Caergybi, a Richard Parker, Rheithor Llanidloes. Mab i Richard oedd y Parchedig Frederick James Parker, Offeiriad cynorthwyol yn Sidcup, Caint, a foddodd yn 26 oed wrth geisio achub gŵr rhag boddi. Fe'i claddwyd yn Llangynfelyn ar 3 Awst, 1943.

Symudwn o Dŷ Mawr Mochno i fferm Tanllan ger Eglwys Llangynfelyn at John Griffith Stephens, ei wraig Margaret, a naw o blant, a ddaeth yno o Erglodd ar ôl ffermio yn Nhŷ'n Cwm, Penrhyn-coch, cyn hynny. Soniais am fy nghysylltiad â'r teulu mewn ysgrif gynharach a'r tro hwn rwyf am gyfeirio at ddau o feibion y fferm fu'n fyfyrwyr am yr offeiriadaeth yng Ngholeg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan. Daeth John Griffith i sylw pan oedd yn gurad yn Llanelli gan iddo chwarae rygbi dros dîm y dre a Chymru. Yn y gêm olaf o dymor 1922 yn erbyn Ffrainc ym Mharis sgoriodd un o dri chais Cymru ond fel arfer ni chafodd sylw gan y gohebwyr Saesneg. Dywedodd rhywun ei fod yn gymaint o ŵr bonheddig yn ar y Strade yn ei shorts gwyn ar y Sadwrn ag yr oedd yn ei wenwisg wrth allor yr eglwys fore Sul. Bu'n Gaplan gyda'r Awyrlu a gorffennodd ei ddyddiau yn 62 oed fel Rheithor Bossall ger Efrog, ac yno y'i claddwyd. Yn drist iawn bu farw'i frawd Evan Oswald ar ganol ei hyfforddiant yn Llanbed yn 21 oed ym 1926, ac fe'i claddwyd gyda'i deulu yn Llangynfelyn.

*W.J.Edwards*




CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Mae Elwyn (Russell Gomer) yn 40 rhywbeth ac yn dal o dan ddylanwad Mam. Mae'n rhannu ystafell gyda'r Kelly anfoesgar (Ieuan Rhys) sy'n awyddus i gael profiad gyda merched. Nhw ydi Cwpwl Od y Cymoedd: pâr o eneidiau dryslyd yn cymryd eu camau cyntaf yn y byd mawr tu allan. Ar ôl blynyddoedd o fyw mewn sefydliad iechyd meddyliol maent o'r diwedd wedi eu sefydlu mewn fflat gan y gwasanaethau cymdeithasol. Eu tasg yw ail-sefydlu eu hunain mewn cymdeithas - unai hynny neu ddychwelyd i'r seilam. Y cyfan sydd angen ei wneud yw darbwyllo eu gweithiwr cymdeithasol eu bod yn 'normal' o ddifrif, hyd yn oed os yw'n teimlo'n saffach i gysgu mewn wardrob...


Elwyn sy'n cofnodi eu hynt a helynt wrth iddynt wneud eu ffordd yn ôl i'r byd yr ydym ni'n cymryd yn ganiataol.

Yn berfformiad teimladwy ac eto'n hynod doniol, ymunwch ag Elwyn a Kelly wrth iddynt ffeindio cyfeillion newydd, dod i arfer efo pethau cyffredin a dod i brofi pleserau bywyd bob dydd. Yn seiliedig ar y ffilm o Norwy Elling a'r sioe West End lwyddiannus. Ar daith yng Nghymru Gwanwyn 2012.

Noder os gweler yn dda bod y perfformiad hwn yn Saesneg.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 7




# Dau frawd

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf o *Bapur Pawb* at y gyfrol newydd *Yr Erlid* sy'n adrodd hanes ysgytwol un teulu yng nghyfnod twf Natsïaeth yn Nhridegau'r ganrif ddiwethaf a chyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Bydd y gyfrol o ddiddordeb i ddarllenwyr ardal Papur Pawb gan fod un o'r teulu, sef Kate Bosse-Griffiths, yn fam i Robat Gruffudd y Lolfa. Ddiwedd yr 1930au llwyddodd hi i ffoi i Gymru a dod yn llenor Cymraeg amlwg. Awdur y gyfrol yw Heini Gruffudd, brawd Robat, a daeth ugeiniau o bobl ynghyd i ddigwyddiad arbennig yn Nhŷ Tawe, Abertawe i lansio'r gyfrol.



# Harmoni di-stop

Dros y penwythnos diwethaf daeth 50 o bobl at ei gilydd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont i fwynhau canu harmoni a dysgu caneuon newydd. Y tiwtor oedd Gitika Partington ac mae hi'n dysgu Acapela, canu gwerin a phop fel 'Cold Play', 'Beatles','Yazoo' a' 'Beach Boys'. Fe allwch chi glywed engreifftiau ohoni ar 'You Tube'. Roedd pawb oedd ar y cwrs yn aros yn Tŷ Ieuenctid yn y Borth. Trefnydd y cwrs oedd Roxane Smith (Cyf Harmoni Junkie) a oedd yn arfer byw yn Gwarcwm ond sydd bellach yn byw ym Machynlleth. Roxane sy'n trefnu 'Sing for Water', cyngerdd enfawr (dros 800 o gantorion) yn Llundain pob mis Med i godi arian i 'Water Aid'. Bydd gweithdy a chyngerdd harmoni i ddathlu Diwrnod Dŵr y Byd yn Tŷ Siamas, Dolgellau ar 24 Mawrth. Croeso i bawb.

*Linda Denton*

# Elin Jones AC – O'r Cynulliad



Rwy'n parhau yn bryderus iawn fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn mynd ymlaen â'r cynlluniau i gael gwared ar wasanaethau o Ysbyty Bronglais er eu bod nhw'n honni eu bod dal yn y broses o ymgynghori a 'gwrando' ar y bobl leol ynghylch eu cynlluniau. Yn ddiweddar, fe fynychais gyfarfod cyhoeddus yn neuadd Goffa Penparcau i drafod yr hyn fydd yn digwydd i wasanaethau iechyd Gogledd Ceredigion a chanolbarth Cymru os bydd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu gweithredu.

Mae'n amlwg y cynlluniau o bwys mawr i bobl Ceredigion, yn ogystal â'r rhai ddaeth o siroedd eraill i'r cyfarfod. Gwnaeth 550 o bobl ddod i wrando ac i holi cwestiynau yn y cyfarfod cyhoeddus ac fe gytunwyd i barhau â'r frwydr drwy gynnal gwrthdystiad o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd. Byddaf i hefyd yn parhau i herio'r Gweinidog Iechyd ar y newidiadau mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda am eu cyflwyno i wasanaethau iechyd yr ardal.

Ychydig wythnosau yn ôl, roedd hi'n fraint cael cyflwyno tystysgrif a thorri'r rhuban ar gyfer gwasanaeth trafnidiaeth cymunedol newydd, sef y 'Bws Bro Bach'. Mae hwn yn wasanaeth newydd a fydd yn caniatáu i bobl hŷn ddefnyddio un o'r ddau gerbyd sydd â chyfarpar i gludo cadeiriau olwyn, er mwyn mynd i siopa, ymweld â'r doctor neu'r deintydd, neu i ymweld â theulu a ffrindiau. Rwy'n gobeithio y bydd y gwasanaeth newydd yn llwyddiant ac mae disgwyl iddo wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl hŷn yr ardal sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Yn olaf, roeddwn yn falch iawn i weld Urdd Gobaith Cymru'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Ers yn blentyn, mae'r Urdd wedi chwarae rôl sylweddol yn fy mywyd, ac mae gennyf atgofion melys iawn o gystadlu tra'r oeddwn yn iau. Mae'r Urdd wedi chwarae rôl hanfodol o fewn Cymru dros y degawdau diwethaf ar sail hybu ein diwylliant, ein hiaith a'n traddodiadau, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau i ysbrydoli Cymry ifanc am flynyddoedd i ddod.

Bistro
Gannets
Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL

GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

## Canlyniadau

**Llefaru Blwyddyn 1.**
1. Catrin Jones (L)
2. Heddwyn ap Ioan Cunningham (C)
3. Dyfri ap Ioan Cunningham(C)

**Canu Blwyddyn 1.**
1. Heddwyn ap Ioan Cunningham (C)
2. Grace James (C)
3. Catrin Jones (L)

**Llefaru Blwyddyn 2.**
1. Ynyr Siencyn (L)O
2. Oisin Pennant (C)
3. Elinor Davies (C)/Cai Thomas (C)

**Canu Blwyddyn 2.**
1. Oisin Pennant (C)
2. Angharad Williams (C)
3. Elinor Davies (C)

**Llefaru Dosbarth Derbyn.**
1. Miriam Davies (L)
2. Glain Jones (C)
3. Iestyn Putt(C)/Efa Saunders-Jones (C)/ Velko Trifonov(L)

**Canu Dosbarth Derbyn**
1. Miriam Davies (L)
2. Iestyn Putt(C)
3. Sean Spollen (L)

**Llefaru Blynyddoedd 3. a 4**
1. Glain Llwyd Davies(L)
2. Heledd Davies (C)
3. Nia Benham (L)

**Canu Blynyddoedd 3. a 4**
1. Glain Llwyd Davies(L)
2. Heledd Davies (C)/Emily Bradley(C)
3. Billy Swanson(C)/Nia Benham(L)

**Llefaru Blwyddyn 5.**
1. Bedwyr Siencyn(L)
2. Tomos Jenkins(C)
3. Jac Jones(L)

**Canu Blwyddyn 5.**
1. Jac Jones (L)
2. Gwydion James (L)/Tomos Jenkins (C)
3. Lewis Williams (L)

**Llefaru Blwyddyn 6.**
1. Lecsi Powell-Taylor(C)
2. Celyn Evans (C)
3. Emily Sweeney(C)

**Canu Blwyddyn 6.**
1. Lecsi Powell-Taylor (C)/Celyn Evans (C)
2. Gemma Burnham (C)
3. Aled Jones (L)

**Pres Cyfnod Allweddol 2**
1. Aled Jones (L)
2. Bedwyr Siencyn(L)
3. Gwydion James (L)/Tomos Jenkins (C)

**Llinynnol Cyfnod Allweddol 2**
1. Tia Johnson-Jones (L)
2. Hana Evans (C)

**Piano Cyfnod Allweddod 2**
1. Heledd Davies (C)
2. Billy Swanson (C)/ Glain Llwyd Davies (L)

**Chwythbrennau Cyfnod Allweddod 2**
1. Lecsi Powell-Taylor(C)
2. Nia Benham (L)
3. Glain Llwyd Davies (L)

**Drymiau Cyfnod Allweddod 2**
1. Liam Kelly (C)
2. Tyrone Joule(L)

**Côr**
1. Leri
2. Ceulan

**Celf Dosbarth Derbyn**
1. Sean Spollen (L)
2. Toby Sidnell (C)
3. Efa Saunders-Jones (C)

**Llun Cyfrifiadurol Dosbarth Derbyn**
1. Glain Jones (C)
2. Efa Saunders-Jones (C)
3. Iestyn Putt (C)

**Celf Blwyddyn 1**
1. Heddwyn ap Ioan Cunningham (C)
2. Leon Foulston (L)
3. Thérèse Melad-Woodling (L)

**Llawysgrifen Blwyddyn 1**
1. Thérèse Melad-Woodling (L)
2. Dyfri ap Ioan Cunningham (C)
3. Heddwyn ap Ioan Cunningham (C)

**Celf Blwyddyn 2**
1. Oisin Pennant(C)
2. Becca Fleming-Jenkins (C)
3. Angharad Williams (C)

**Llawysgrifen Blwyddyn 2**
1. Angharad Williams (C)
2. Cai Thomas (C)
3. Becca Fleming-Jenkins (C)

**4Llawysgrifen Blynyddoedd 3. a 4**
1. Emily Bradley (C)
2. Heledd Davies (C) a Tia Johnson-Jones (L)
3. Seren Putt (C)

**Celf Blynyddoedd 3. a 4**
1. Emily Bradley (C)
2. Jade Morris (L)
3. Seren Putt (C)

**Celf Blwyddyn 5**
1. Bedwyr Siencyn (L)
2. Ieuan Putt (C)
3. Hana Evans (C)

**Llawysgrifen Blwyddyn 5**
1. Gwydion James (L)
2. Hana Evans (C)
3. Lewis Williams (L)

**Celf Blwyddyn 6**
1. Harri Mason (L)
2. Gemma Burnham (C)
3. Joel Dibble (L)

**Llawysgrifen Blwyddyn 6**
1. Ashleigh Evans (C)
2. Lecsi Powell-Taylor (C)
3. Gemma Burnham (C)

Tarian Carregcadwgan
i'r tŷ buddugol
**Ceulan**

**Llenyddiaeth Gymraeg Blynyddoedd 3. a 4**
1. Fabien Roberts (C)
2. Libby Foulkes (L)
3. Heledd Davies (C), Glain Davies (L) a Tia Johnson-Jones (L)

**Llenyddiaeth Saesneg Blynyddoedd 3. a 4**
1. Heledd Davies (C) a Tia Johnson-Jones (L
2. Glain Davies (L)
3. Seren Putt (C)

**Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 5**
1. Bedwyr Siencyn (L)
2. Hana Evans (C)
3. Lewis Williams (L)

**Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 5**
1. Ieuan Putt (C)
2. Penri Hughes (L)
3. Louisa Williams (L)

**Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 6**
1. Lecsi Powell-Taylor (C)
2. Aled Jones (L)
3. Harri Mason (L) a Gemma Burnham (C)

**Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 6**
1. Lecsi Powell-Taylor (C)
2. Aled Jones (L) a Gemma Burnham (C)
3. Celyn Evans (C) a Emily Sweeney (C)

**Cerdd y Gadair**
1. Gemma Burnham (C)
2. Tia Johnson-Jones (L) a Harri Mason (L)
3. Bedwyr Siencyn (L)

Tlws Mair Nutting i'r llefarydd gorau
**Glain Llwyd Davies (L)**

Cwpan Anwylyd Evans i'r marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen
**Heddwyn ap Ioan Cunningham(C)**

Tarian Catrin Maesmeillion (celf a llawysgrifen)
**Emily Bradley (C)**

Tlws coffa J.D. Jones i'r llais gorau
**Oisin Pennant (C)**

Tlws llenyddiaeth (Cymraeg a Saesneg)
**Lecsi Powell-Taylor(C)**

Tlws coffa J.D. Jones i'r offerynwr gorau
**Lecsi Powell-Taylor**

Tarian Dylan a Dwynwen Morgan i'r marciau unigol uchaf
**Lecsi Powell-Taylor(C)**

Tarian Geoff a Bethan Davies (perfformiad gorau Cyfnod Sylfaen)
**Miriam Davies (L)**

# Ysgol Tal-y-Bont

Ar Fawrth y 1af cawsom ddiwrnod o weithgareddau i ddathlu diwrnod y llyfr. Gwisgodd y disgyblion fel cymeriadau o lyfrau am gyfraniad o £1 – casglwyd yr arian i'r elusen 'Book Aid International'. Cawsom gwmni rhieni yn y bore i fwynhau sgwrs a stori gan Alun Elidir dros baned a chacen. Gwyliodd y disgyblion hŷn gwe ddarllediad byw gan awduron enwog a chawsom gyfle yn y prynhawn i ymweld â'r Lolfa i ddysgu mwy am ein gwasg lleol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, i'r staff am gyfrannu lluniaeth ac i Alun a Garmon am roi o'i hamser i'n diddanu.

Buom yn dysgu am Ddydd Mawrth Ynyd a'r Grawys a thraddodiadau'r Mardi Gras. Coginiom grempogau blasus ond doedden nhw ddim hanner mor flasus â rhai Mrs Jones!

Mwynheuodd disgyblion CA2 ddiwrnod yng Nghanolfan y Celfyddydau fel rhan o'u cwricwlwm Celf. Cawsant gyfle i ymchwilio a dylunio yn y galeri cyn mynd ati i greu darn o waith serameg eu hunain.

Ar ddiwedd yr hanner tymor diwethaf aeth disgyblion blynyddoedd 3 a 4 i dreulio noson yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog yng nghwmni Ysgol Craig yr Wylfa. Er ei fod hi'n ddeuddydd oer tu hwnt, cawsom lawer o hwyl wrth gael tro ar sgio, beicio cwad, y wal ddringo, cwrs rhaffau, saethyddiaeth a thrampolinio. Bu dawnsio brwd yn y disgo (gan yr athrawon yn enwedig!) a mwynheuodd pawb fwyd blasus y gwersyll a'r gwledda canol nos!

Aeth blynyddoedd 5 a 6 ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn gweld ei arddangosfa diweddaraf. Cawsant fore diddorol ac addysgiadol iawn yno.

Aeth tîm o fechgyn blynyddoedd 5 a 6 i gystadlu yn nhwrnament rygbi'r Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Chwaraeoedd y tîm yn arbennig o dda mewn gemau caled - fel y gall wyneb ambell aelod o'r tîm dystio!


argraffu da
*am bris da*



y lolfa holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**

MID WALES STORAGE

**Storfa Canolbarth Cymru**

STORFA DODREFN | STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR | PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV**
**WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

**www.midwalesstorage.co.uk**
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
**Ffôn: 01654 703592**



Gemma Burnham, enillydd y gadair



Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol



Dysgu am serameg



Diwrnod crempog



# Telynores Neuadd Fawr

Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont oedd yn diddanu Cylch Cinio Merched Aberystwyth yn eu cinio Gwyl Ddewi yn Llety Parc ar Nos Iau, 1 Mawrth. Roedd Medi, sydd yn cael ei hyfforddi gan y delynores Elinor Bennet, wedi paratoi rhaglen o gerddoriaeth clasurol, modern a chymreig ar y delyn. Yna bu'n clocsio dawns y mae wedi ei pharatoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Diolchwyd i Medi am ei chyfraniad hyfryd i'r noson gan Elizabeth Davies, Llety Ifan Hen, Bontgoch.

# Eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig yng Nghanolfan y Celfyddau ar Ddydd Iau, 9 Chwefror. Unwaith eto cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn yn llawn bwrlwm a hwyl gyda'r llysoedd Hywel, Llywelyn a Bleddyn yn cystadlu'n frwd yn erbyn eu gilydd. Roedd safon y cystadlu ar y llwyfan yn uchel fel y crybwyllodd y beirniaid Jane Leggett (cerdd), Alun John a Geraint Thomas (offerynnol) a Beryl Vaughan (llefaru), fwy nag unwaith yn ystod y dydd.

Llwyddodd nifer o ddisgyblion sy'n byw yn ardal Papur Pawb i ennill sawl gwobr yn yr Eisteddfod.



Sam Ebenezer
y cantor gorau

- Tlws Llenyddiaeth Saesneg – Harri James (ŵyr i Dr Gareth a Mrs Gwen Hughes, Coetmor, Tal-y-bont)
- Tlws y Cantor Gorau – Sam Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont
- Aelod o Ddeuawd B10 i 13 1af – Sam Ebenezer
- Unawd Bechgyn B10 i 13 1af – Sam Ebenezer
- Unawd Sioe Gerdd 1af – Sam Ebenezer
- Unawd Bechgyn B7 i 9 – 2il Ben Jones Hyghes, Maes y Deri, Tal-y-bont
- Unawd Offerynnol B7 i 9 – 2il Catrin Huws, Henllan, Tal-y- bont
- Grŵp Roc 1af - Elis Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont a Sam Ebenezer
- Hyfforddwraig Grŵp Dawnsio Disgo Llywelyn 1af - Elen Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont
- Aelod o Grŵp Dawnsio Disgo Bleddyn 3ydd – Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont

Fe welwyd nifer o ddisgyblion eraill o'r ardal yn ogystal mewn partion a chorau.

Llongyfarchiadau i'r ysgol gyfan ar lwyddiant yr Eisteddfod ac fel un a eisteddodd yn y Neuadd Fawr trwy'r dydd - diolch yn fawr iawn am ddiwrnod a roddodd cymaint o fwynhad a phleser i mi.

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 10

# Cwis Ysgubor-y-coed



Dyma rai o bentrefwyr Ffwrnais ac Eglwysfach yn mwynhau noson gwis ar 18 Chwefror yn y Stafell Haearn, Eglwysfach. Diolch i Roy Bamford a Chris Fuller am drefnu y noson mor hwyliog.




Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

## Os Mêts

Unwaith eto, daeth y criw at eu gilydd yn ystafell waelod Neuadd Goffa, Tal-y-bont, Nos Iau, 23 Chwefror. Roedd y noson yng ngofal Delyth Huws, Henllan, Tal-y-bont sydd yn Lyfrgellydd plant Ceredigion. Daeth hi â llond dau focs o gopiau o Feiblau hen a newydd a sawl argraffiad o'r stori 'Arch Noa'gyda hi. Wrth fyseddu'r cyfrolau cafwyd trafodaeth ar ddiwyg a chynnwys y gwahanol lyfrau gan gymharu a mynegi barn. Daeth pwl o hiraeth dros ambell oedolyn oedd yn bresennol wrth weld llyfr a oedd yn gymaint rhan o'i orffennol ac yn ei atgoffa o'i gyfnod yn yr Ysgol Sul. Diolch i Delyth am noson ddifyr.

## Bryan-yr-organ

Mae aelod o dîm pêl-droed Tal-y-bont bellach yn fyd-enwog am iddo ffilmio'i dad yn gwylio rygbi. Bu Owain Jones yn dawel bach yn ffilmio 'Bryan-yr-organ' yn gweiddi a rhegi wrth iddo wylio gêm ryngwladol ar y teledu. Gosodwyd y ffilm ar Youtube ac o fewn fawr o dro gwyliwyd y clip byr gan ddegau o filoedd,- a rhoddwyd sylw rhyfeddol i'r cyfan gan y cyfryngau.

NFU Mutual
INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS
We do right by you

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:
01970 612331
www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.




Mae Sain Ddisgrifio ar gael yn Gymraeg ar nifer o raglenni S4C. Mae disgrifiadau o symudiadau a mynegiant yn rhoi bywyd i raglenni ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth Sain Ddisgrifio cysylltwch â Gwifren Gwylwyr ar 0870 600 4141 neu ewch i s4c.co.uk.

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 11

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Project Balchder Pentrefi**

Cyn troi at fusnes arferol y Cyngor derbyniwyd cyflwyniad byr gan Johanna Shaw, Swyddog Project *Balchder Pentrefi* , sef cronfa adnewyddu pentrefi Ceredigion. Eglurodd sut y gall cynghorau cymuned dderbyn grant o hyd at 60% o gost cynlluniau fyddai'n gwella 'edrychiad a chyfleusterau mannau cyhoeddus' . Rhoddodd amlinelliad o enghreifftiau y gallai'r Project eu cefnogi megis plannu coed a llwyni, goleuadau stryd, darparu meinciau cyhoeddus ac arwyddion neu baneli gwybodaeth. Nod y Project, a ariennir gan Ewrop a Llywodraeth Cymru, yw gwella edrychiad cymunedau'r sir a thrwy hynny eu gwneud yn fannau mwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**Ysbyty Bronglais**

Mater sydd o gonsyrn mawr i'r gymuned gyfan yw'r bygythiad i statws Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn sgil dogfen ymgynghorol Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar ddyfodol y gwasanaeth iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mewn Papur Briffio a baratowyd ar gyfer y cyfarfod, amlinellwyd y prif resymau dros y pryderon am ddyfodol Bronglais a'r rhan y gallai'r Cyngor ei chwarae i ddangos eu gwrthwynebiad i unrhyw gynlluniau allai arwain at is-raddio'r gwasanaethau yn Aberystwyth. Cytunwyd y dylai'r Cyngor fynegi eu hofnau yn yr holiadur ymgynghorol a baratowyd gan y Bwrdd Iechyd ac hefyd i anfon llythyr at Bwyllgor Ceredigion Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda i fynegi eu consyrn am ddyfodol Bronglais.

**Taith y Ffagl Olympaidd**

Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc gyfarfod yn Aberaeron ddechrau Chwefror lle amlinellwyd trefniadau ac amserlen taith y Ffagl Olympaidd drwy Geredigion ar ddydd Sul 27 Mai a bore Llun 28 Mai. Bydd y dydd Sul yn cloi gyda Digwyddiad Mawreddog yn Aberystwyth lle disgwylir tyrfa o ryw 10,000 o bobl. Ar fore Llun 28 Mai bydd mintai'r Ffagl yn cychwyn o Aberystwyth tua 7 y bore a chyrraedd Tal-y-bont am 9. Cytunodd y Cyngor nad oedd amseriad yr ymweliad a Thal-y-bont yn briodol i gynnal digwyddiad penodol yn y pentref, ond fe fyddai cyfle i'r trigolion a phlant yr ysgol gynradd groesawu'r Ffagl ar ei thaith.

**Y Fynwent**

Adroddwyd fod llythyr wedi'i baratoi i'w anfon at y teuluoedd hynny nad ydynt yn glynu wrth reolau'r Cyngor parthed y beddau yn rhan newydd y fynwent. Bu'r Clerc a'r Cadeirydd yn y fynwent i gadarnhau pa feddau sy'n peri gofid. Pan gwblheir y dasg o ddod o hyd i enw a chyfeiriad y teulu agosaf, anfonir llythyr atynt yn eu hatgoffa o'r rheolau.

**Triathlon**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais i gynnal Triathlon yn ardal Aberystwyth ddydd Sul 10 Mehefin i rai nad ydynt ymhlith yr elît yn y gamp. Gobaith y trefnwyr yw y bydd cymal seiclo'r gamp yn cychwyn o Aberystwyth am 9.40 y bore a theithio drwy Tal-y-bont i Dre'r-ddôl ac yn ôl ar hyd yr A487. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r digwyddiad.

**Bont-goch**

Yn dddiweddar, gwrthodwyd cais cynllunio yn Bont-goch am fod canran y ceisiadau i godi tai newydd ers 2007 yn is yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, megis pentref Tal-y-bont, o'u cymharu â'r ganran o geisiadau newydd yn yr aneddiadau cysylltiedig, megis Bont-goch. Tra bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn deall rhesymeg yr Awdurdod Cynllunio dros wrthod y cais ar y sail hon, roeddynt wedi eu rhyfeddu bod yr Awdurdod wedi cynnig caniatáu'r cais pe bai'r datblygwr yn cytuno codi un tŷ yn llai mewn cymuned arall. Pasiwyd i anfon cwyn at yBrif Weithredwr Cyngor Sir ceredigion am y modd amhroffesiynol yr oedd yr Awdurdod Cynllunio wedi gweithredu. Deallwn fod y datblygwr wedi gwrthod amod yr Awdurdod ac felly ni fydd cartref newydd yn cael ei godi ar y tir ar bwys Trem-y-rhos.

**Ceisiadau Newydd:**

Derbyniwyd dau gais cynllunio newydd sef codi estyniad llawr cyntaf i 20, Dôl Pistyll a chodi estyniad deulawr i 14, Dôl Pistyll. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw sylw i'w wneud ar y ddau gais.

**Cyflwr ffyrdd**

Derbyniwyd cwynion am gyflwr nifer o ffyrdd, gan gynnwys y ffordd rhwng Penlôn a Phentre-bach, a ffordd Penlôn ar bwys y biniau ail-gylchu. Pasiwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y cwynion hyn.

## Y Gair Olaf



Dwi'n berson lwcus. Dwi'n gweithio i gyflogwr goleuedig sy'n nodi gŵyl ein nawddsant gyda diwrnod o wyliau i'r gweithwyr. Felly dyma fi ag ychydig amser ar Fawrth 1af i bendroni.

Mae'n fy nharo ei bod hi nid yn unig yn Ddydd Gŵyl Dewi, ond hefyd yn Bythefnos Masnach Deg arnom ni. Ac ers i fi gael sgwrs gydag un o drigolion Tal-y-bont yn noson Hwyl Ddewi, mae'r ddau beth wedi cyd-blethu yn fy meddwl.

Un peth sy'n fy niflasu yw pobl sy'n cwyno, ond heb fod yn fodlon mynd i'r afael â'r broblem neu'r sefyllfa sy'n eu cythruddo. Diflas hefyd, wrth gwrs, yw mynd ati'n benderfynol i ddatrys problem, a methu'n lan â dylanwadu ar y sefyllfa.

Camau bychain yw'r ateb yn aml iawn – mae cam bach i'r cyfeiriad iawn, a cham bach arall yn dilyn hwnnw, yn aml yn fwy effeithiol nag anelu am chwyldro. Newid y byd bob yn dipyn.

A dyna fu hanes trigolyn Tal-y-bont, gydag arwyddair Pythefnos Masnach Deg 2012 yn ei chlustiau "Camwch Gam dros Fasnach Deg", pan aeth i Spar Tal-y-bont a gofyn am fananas masnach deg.

Siom gafwyd; doedd dim i gael. Ond yna cafodd nerth, a camodd ei cham: gofynnodd a fyddai'n bosib archebu bananas masnach deg i'r siop. Y canlyniad? Deliferi o fananas masnach deg dwywaith yr wythnos.

Felly p'un ai "Camwch Gam dros Fasnach Deg" neu "Gwnewch y pethau bychain" yw'ch arwyddair – ewch draw i Spar Tal-y-bont a phrynwch fananas masnach deg. Newidiwch y byd bob yn dipyn.

*Rebecca Williams*

**Gofal Traed Aber**

**Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**
Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

pp mawrth 12_Layout 1 06/03/2012 20:12 Page 12

# CHWARAEON



*Dylan Wyn yn sgorio i'r Teirw yn erbyn Y Bont.*



## Dilyn ôl troed Taid

Mae aelod o dîm pêl-droed Teirw Tal-y-bont wedi'i ddewis i ymuno â charfan Academi Clwb Pêl-droed Aberystwyth. Er mai dim ond naw a hanner mlwydd oed yw Dylan Wyn Benjamin, mae bellach yn rhan o garfan o fechgyn dan 12 oed clwb y dre, gan dderbyn hyfforddiant o safon uchel.



*Eric yn lliwiau Aberystwyth yn 1964.*

Nid yw'n syndod bod Dylan Wyn yn bêl-droediwr addawol gan y bu ei daid, Eric Roberts, Maes-y-deri, yn un o chwaraewyr disgleiriaf Aberystwyth dros ddeugain mlynedd yn ôl. Chwaraeodd Eric ei gemau cyntaf dros Aber yng Nghynghrair Cymru yn ystod tymor 1962-63 ac yr oedd yn gefnwyr chwith i dîm ieuenctid y clwb a lwyddodd i gyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Ieuenctid Cymru yn 1964. Yn y gêm honno, yn erbyn chwaraewyr proffesiynol Wrecsam, anafwyd Eric pan oedd Aber ar y blaen 1-0. Gan nad oedd eilyddio yn cael ei ganiatáu yn y dyddiau hynny, rhaid oedd i Eric chwarae gweddill y gêm yn gloff ar yr asgell. Collwyd y gêm 2-1, ac yn ddiweddarach darganfu Eric ei fod wedi torri asgwrn yn ei goes.

Wedi cyfnod o saith mlynedd gydag Aber, ymunodd Eric â chlwb Machynlleth, cyn gorffen ei yrfa gyda thîm Tal-y-bont. Uchafbwynt ei gyfnod gyda thîm y pentref oedd ennill Cwpan Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch yn 1981.

Bellach mae talent y teulu wedi'i drosglwyddo i Dylan Wyn a bydd ef yn edrych ymlaen at chwarae yn erbyn bechgyn gorau Cymru, gan fod Academi Aber yn cystadlu yn erbyn clybiau fel Abertawe a Chaerdydd. Bydd yn parhau, serch hynny, i chwarae dros y Teirw dan ofal hyfforddwr y tîm, ei dad Wyn Benjamin.

## Hoci



Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont bu'n cystadlu yn nhwrnament hoci 'Activate'. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda gan golli allan o drwch blewyn i le yn y gêm derfynol.


Cawod Defaid Symudol
ARTHUR MORGAN
Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'



Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774